# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2226 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 09/03/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4450 |

| | |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4451 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr H. Trollope (Cadeirydd), G. Collier a T. Smith.<br><br>**Aelod Cyfetholedig**<br>A. Williams |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4452 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau<br><br>**DIWEDDARIAD LLAFAR – PANDEMIG COVID-19**<br><br>Ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ddiweddariad llafar ar ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i bandemig COVID-19.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr aelod o achosion positif COVID-19 ar draws y Fwrdeistref wedi gostwng i 38 fesul 100,000 poblogaeth. Bu hynny'n sefyllfa sefydlog dros y 10 diwrnod diwethaf ac yn dangos fod yr holl gydweithio wedi cyfrannu at wneud gwahaniaeth.<br><br>Yng nghyswllt y diweddariad ar ysgolion, dim ond un achos positif a fu mewn ysgol ac o safbwynt gweithlu ychydig dros 20 o staff oedd naill ai'n hunan-ynysu neu wedi eu dynodi fel bod yn y categori gwarchod. Mae hynny eto'n sefyllfa sefydlog iawn ac ni chafwyd unrhyw broblemau sylweddol ynglŷn â gweithlu a staffio ar draws addysg ar y pwynt hwn. Roedd yn falch i hysbysu Aelodau fod y cyswllt gydag ysgolion wedi parhau i fod yn galonogol iawn a bod ysgolion wedi cytuno ar benderfyniadau strategol ac wedi cymryd dull gweithredu ar y cyd yn nhermau ein hymateb. Mae cyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Gweithredol gyda phenaethiaid ysgol yn parhau bob bythefnos ac yn ddiweddar bu symud at i ddysgwyr cyfnod sylfaen ddychwelyd i safleoedd ysgol ar gyfer dysgu wyneb i wyneb o 22 Ionawr. Dywedodd wrth Aelodau fod y trefniadau hyn wedi rhedeg yn llyfn heb unrhyw wir anawsterau ac mae hyn er clod i'r sector cynradd am y ffordd y maent wedi rheoli'r trefniadau hyn wrth iddynt symud tuag at gynyddu niferoedd mewn dysgu wyneb i wyneb.<br><br>Roedd darpariaeth hyb wedi parhau dros dymor y gwanwyn ar gyfer dysgwyr bregus a gweithwyr allweddol. Yn y cylch derbyn diweddaraf roedd bron 460 o blant oedd yn parhau i gael eu cefnogi. Mae'n achosi ychydig o |

bryder, o safbwynt prydau ysgol am ddim, fod taliadau uniongyrchol wedi cynyddu i 1,768 o ddysgwyr heb gynnwys dysgwyr Cyfnod Sylfaen. Teimlai fod hyn yn dangos effaith economaidd COVID-19 yn lleol ar rai teuluoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bu'r taliadau uniongyrchol i'r teuluoedd hynny yn gweithio'n effeithlon ac yn cael eu hadolygu yn wythnosol.

O safbwynt dysgu cyfunol o bell, bu cyswllt agos gyda chydweithwyr yn EAS ar gynllun peilot Dathlu, Rhannu, Cefnogi a Mireinio ar draws de ddwyrain Cymru ac roedd yn falch i ddweud fod 13 o 25 ysgol Blaenau Gwent yn cymryd rhan yn y cynllun peilot hwnnw, mwy na 50 a dyna'r gyfran fwyaf o unrhyw ardal awdurdod lleol o fewn y rhanbarth.

O safbwynt technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae nifer y dyfeisiau a'r gefnogaeth i ddysgwyr a theuluoedd bellach yn bron 1,600 dyfais a ddosbarthwyd i deuluoedd lle dynodwyd angen. Mae'r Rheolwr Trawsnewid Addysg a'r tîm wedi gweithio'n agos gyda'r SRS i sicrhau fod y gefnogaeth i ddysgwyr yn gynhwysfawr.

Mae brechiadau ar gyfer staff mewn ysgolion arbennig a'r staff addysgu a heb fod yn addysgu mewn canolfannau adnoddau wedi dechrau. Yng nghyswllt profion, dosbarthwyd profion llif unffordd dros y 10 diwrnod diwethaf a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr y dechreuodd profion llif unffordd ar gyfer staff ddydd Mercher 3 Mawrth.

Bu cyfarfodydd arbennig gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd, cynradd ac arbennig yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru. Roedd hynny hefyd wedi cynnwys cyswllt gyda'r undebau llafur fel y gellid trafod rhai o'r trefniadau cynllunio ar gyfer mwy o ddysgu wyneb i wyneb o 15 Mawrth. Mae'r sefyllfa bresennol a gynlluniwyd gyda'r penaethiaid yn golygu y byddai'r holl ddysgwyr cynradd yn dychwelyd o 15 Mawrth a byddai'n cynnwys y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Hefyd o 15 Mawrth byddai blwyddyn 11 ysgolion uwchradd yn dychwelyd a chaiff un diwrnod yr wythnos ei neilltuo ar gyfer blwyddyn 10 fel rhan o'r gofynion asesu arholiad dros y 18 mis nesaf. Roedd dull gweithredu arfaethedig ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9 a fyddent i gyd yn derbyn o leiaf un gwirio-mewn diwrnod llawn cyn cyfnod gwyliau'r Pasg. Bu peth dialog ddechreuol gyda phenaethiaid ysgol ar draws y bwrdd am ddarpariaeth ar ôl y Pasg, yn amodol ar adolygiad Llywodraeth Cymru, ond gyda golwg ar symud posibl tuag at ddychwelyd llawn i bob dysgwr.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am brofion llif ar gyfer aelodau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod profion llif unffordd ar gyfer yr holl staff addysgu a heb fod yn addysgu yn mynd rhagddo a bod hynny'n cynnwys staff ategol fel staff arlwyo a glanhau. Cynhelir profion ddwywaith yr wythnos ac maent yn brofion hunan-weini. Os dynodir achos positif drwy'r prawf llif unochrog, yna gwneir trefniadau ar gyfer prawf PCR, sydd yn fwy cadarn, er mwyn sicrhau y gellid rheoli unrhyw achosion positif posibl sy'n codi mewn modd priodol.

Cyfeiriodd Aelod at brofion Legionella mewn ysgolion a gofynnodd am

| | |
|---|---|
| | ddiweddariad ar ymgynghorwyr a gododd y mater o wahanol ffyrdd ar gyfer profion Legionella. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod trefniadau diwygiedig yn eu lle yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar brofion dŵr. Mae bellach drefniadau ar gyfer monitro wythnosol lle mae'n rhaid i ysgolion gadarnhau, er enghraifft, bod trefniadau fflysio yn cael eu hadrodd i Gwasanaethau Technegol yn unol â'r canllawiau diweddaraf am Legionella ac mae monitro o fewn y tîm Trawsnewid Addysg. Lle mae unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, cysylltir ag ysgolion a chaiff unrhyw weithredu unioni ei wneud yn brydlon. Cadarnhaodd fod ysgolion wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i'r trefniadau newydd ac estynedig ar fflysio a ddisgwylir o safbwynt yr awdurdod lleol.<br><br>Holodd Aelod am y defnydd o ddyfeisiau electronig personol yr eir â nhw i ysgolion ac a ddefnyddir ar gyfer dibenion ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cafodd 1,600 o ddyfeisiau wedi eu hadnewyddu eu dosbarthu i ddysgwyr ac mae llawer o weithgareddau dysgu yn awr yn digwydd 'dewch â'ch dyfais eich hun'.<br><br>Cynhaliwyd hyn mewn cysylltiad gyda SRS i sicrhau fod mesurau rheoli yn eu lle i wneud yn siŵr y caiff y gweithgaredd ei wneud mewn amgylchedd diogel ac nad yw'r dysgwyr dan anfantais ac na chânt eu rhoi mewn unrhyw risg pellach drwy ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain. Wrth symud ymlaen, teimlai y byddai hyn yn dod yn fwy o norm yn arbennig yn nghyswllt dysgu cyfunol.<br><br>Cododd yr Aelod bryderon am golli neu ddifrod i'r dyfeisiau. Yng nghyswllt difrod, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod gan y Cyngor ei drefniadau yswiriant ei hun. Byddai angen trefniadau lleol o fewn ysgolion i sicrhau y cedwir y sefyllfaoedd hyn i isafswm llwyr ac y caiff unrhyw ddyfeisiau personol eu diogelu.<br><br>Cododd Aelod bryder am y cynnydd mewn prydau ysgol am ddim a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar y Grant Amddifadedd Disgyblion. Holodd os yw Llywodraeth Cymru yn edrych ar ailddosbarthu'r Grant hwn yn unol â'r pandemig a nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn awr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg ei bod yn anodd ar hyn o bryd rhoi arwydd cryf sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i lefelau uwch o gymhwyster i brydau ysgol am ddim ar draws Cymru. Caiff y lefelau hyn eu mesur ar ffurflenni blynyddol lefel PLASC ym mis Ionawr a dylai hynny gael ei adlewyrchu yn y Grant Amddifadedd Disgyblion. Cadarnhaodd y defnyddir ffurflenni PLASC i asesu Grantiau Amddifadedd Disgyblion.<br><br>Cododd Aelod bryderon pellach am ailagor ysgolion a theimlai y dylid paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ei ystyried. Roedd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu wedi cwrdd ym mis Chwefror 2020 ac nid oedd wedi cwrdd wedyn tan fis Medi 2020 oherwydd y pandemig. Teimlai y dylid cadw cofnod a pharatoi adroddiad i ystyried unrhyw drafodaeth neu bryderon a all fod gan Aelodau Craffu am ailagor ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at Legionella a phrofion dŵr ar gyfer ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol Addysg y cyflwynwyd adroddiad diweddaru COVID-19 yng nghyswllt addysg ym mis Tachwedd oedd yn cynnwys agweddau o'r problemau profion dŵr a wynebwyd yn nhymor yr haf ac mae'n hapus i ddod ag adroddiad pellach yn diweddaru ar COVID-19 i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ym mis Ebrill.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am frechiadau a cynllunio, paratoi ac asesu (CPA), dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y cynhaliwyd trafodaethau am ddull gweithredu rhanbarthol gyda phenaethiaid ysgolion a'r undebau llafur a bod rhai ysgolion wedi cadarnhau fod ganddynt gapasiti i gynnal CPA mewn trefniadau arferol ac y gall ysgolion eraill gael peth anhawster a'u bod yn ystyried gorffen ychydig yn gynharach ar ddyddiau Gwener i ddarparu ar gyfer PPA, ond y byddai hyn yn fater i'r Pennaeth a'r Cadeirydd Llywodraethwyr i'w benderfynu ac y byddai hynny'n galluogi hwyluso gofynion statudol o amgylch PPA. Yng nghyswllt brechiadau eglurodd mai dim ond i staff mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau y maent yn cael eu cynnig ar hyn o bryd. |

| Item ID | 4453 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 4517 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 11 Chwefror 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Diweddariad Llafar – Pandemig COVID-19</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod am ddiweddariad yng nghyswllt y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer offer PPE ychwanegol ar gyfer ysgolion.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cyhoeddwyd canllawiau newydd ar PPE ynghyd â hyfforddiant i bob ysgol ym mis Chwefror. Roedd ceisiadau am PPE ychwanegol yn cael eu monitro bob bythefnos ac roedd gan bob ysgol ddigon o ddarpariaeth yn ei lle ar gyfer cyfnod presennol ailagor. Byddai'r hyfforddiant a'r canllawiau yn cael eu diweddaru gyda gwybodaeth newydd neu sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Derbyniwyd cyllid Llywodraeth Cymru a'i ddyrannu yn unol â hynny a'i reoli yn unol â dyrannu PPE yn unol â'r cyllid ychwanegol a'r gronfa caledi.<br><br>Dywedodd Aelod y cafodd nifer o grantiau ychwanegol eu derbyn a |

| | |
|---|---|
| | gofynnodd am ddiweddariad cynnydd ar grant cymorth COVID-19 ADY, grant dillad mynediad Grant Amddifadedd Disgyblion a'r rhaglen EdTech.<br><br>Yng nghyswllt grant cymorth COVID-19 ADY a grant mynediad Grant Amddifadedd Disgyblion, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant eu bod yn gweithio gyda EAS i ddyrannu grant cymorth COVID-19 ADY i ysgolion ar sail disgybl. Dylai'r ysgolion dderbyn hyn yn y dyfodol agos. Cafodd grant dillad y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ymestyn tan ddiwedd mis Mehefin ac mae'r broses gais yn awr yn fyw ar wefan Blaenau Gwent. Caiff llythyr ei baratoi ar gyfer ysgolion i'w rannu gyda rhieni, ac mae rhai ysgolion eisoes wedi cynnwys yr wybodaeth ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae'r ddau grant ar gael naill ai i ysgolion neu i rieni.<br><br>Dywedodd Aelod fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £72m ar gyfer addysg a gofynnodd am adroddiad am ba gynigion oedd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gan y bu nifer o gyfleoedd adnoddau a chyllid ychwanegol dros dymor y gwanwyn, cytunwyd gyda chydweithwyr yn yr adran Cyllid i gynhyrchu un ddogfen a fyddai'n rhoi sylw i'r adnodd a sut y defnyddid yr adnodd hwnnw. Caiff Nodyn Gwybodaeth ei baratoi i roi manylion y cyllid grant a dderbynnir gan y Gyfarwyddiaeth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 4518 |
|---|---|
| Item Title | Adolygiad Thematig Estyn – Ymateb Blaenau Gwent i COVID-19 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu i adolygu adroddiad Adolygiad Thematig Estyn sy'n amlinellu'r naratif ar yr ymateb corfforaethol i sefyllfa COVID-19, yn arbennig yn cefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod argyfwng.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 32 yr adroddiad a gofynnodd am ddiweddariad ar nifer y disgyblion bregus a fynychodd ddarpariaeth hyb rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth mai'r nifer bresennol yw 120.<br><br>Rhoddodd yr Aelod Cyfetholedig ymateb i'r adolygiad thematig o safbwynt penaethiaid ysgolion. Dywedodd y bu'r ychydig fisoedd diwethaf yn heriol iawn yng nghyswllt ceisio cynnal safon dda o addysg ar gyfer disgyblion pan oedd cynifer o'r staff wedi gorfod ynysu. Bu dau faes o gynnydd cyflym ym Mlaenau Gwent, y cyntaf yw'r cynnydd sylweddol mewn defnyddio technoleg gwybodaeth yn fwy effeithlon i gefnogi disgyblion gyda dysgu o bell, yr ail oedd y lefel cydweithio gydag ysgolion a swyddogion awdurdod |

| | |
|---|---|
| | lleol. Bu ymgynghoriad clir a chytundeb llwyr ar bob penderfyniad mawr. Mae hyn yn rhoi mwy o eglurdeb i rieni oherwydd fod dull gweithredu cyson gan bob ysgol a theimlid ei fod wedi helpu i gyfyngu lledaeniad y pandemig. Mae'n dda nodi fod Estyn wedi cydnabod y lefel hon o gefnogaeth, cydweithio ac ymddiriedaeth ac yn gobeithio y byddai'n parhau i'r dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff cyntaf tudalen 33 – 'Nid yw'n ymddangos fod y trefniadau interim ar gyfer swydd cyfarwyddwr corfforaethol neu ddiffyg swyddog arweiniol gwella ysgolion wedi cael effaith negyddol ar allu'r awdurdod lleol i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig'. Teimlai ei bod yn bwysig sôn fod y Cyfarwyddwr presennol wedi cymryd drosodd ar sail dros dro ar ddechrau'r pandemig a theimlai y dylid llongyfarch y Cyfarwyddwr a'i holl staff ar eu gwaith ers dechrau'r pandemig.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogid a chytuno gyda sylwadau eu cydweithiwr.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at arbedion o £210,000. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod yr adroddiad yn amlygu tanwariant y portffolio ar yr adeg honno yn gysylltiedig â gostyngiad costau, nid arbedion refeniw mohonynt ond y sefyllfa ariannol yr adeg honno. Yng nghyswllt monitro cyllideb, caiff y costau ychwanegol yn gysylltiedig gyda Covid tebyg i arlwyo a glanhau eu hariannu gan bennaf drwy gymorth cronfa caledi Llywodraeth Cymru, heb hynny byddai'r Gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa ariannol anffafriol.<br><br>Mynegodd Aelod ei werthfawrogiad am gymorth amhrisiadwy dysgwyr bregus o'r tîm Cynhwysiant a chydnabu waith da y tîm Gwasanaethau Ieuenctid yng nghyswllt dosbarthu cyfrifiaduron a donglau i alluogi ieuenctid i fynd ar-lein. Croesawodd adroddiad yr Adolygiad Thematig sy'n dangos y dull gweithredu yn ystod dyddiau cynnar y pandemig ac ailagor ysgolion, fodd bynnag roedd ganddo bryderon nad oedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yr Aelod yn falch i nodi ein bod fel Awdurdod Lleol wedi cyflwyno'r pump argymhelliad a amlygwyd yn yr adroddiad i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at recriwtio, adfer, codi safonau a chyllid grant cyflymu dysgu i gefnogi disgyblion i ddal lan a gyda dysgu a holodd pa gynnydd a wnaed ar fonitro effaith y grant a pha dystiolaeth sydd ar gael i fesur deilliannau disgyblion. Holodd hefyd am gynllunio strategol am sut olwg fyddai ar addysg ym Mlaenau Gwent ym mis Medi, er enghraifft beth oedd disgwyliadau pob ysgol, sut y byddid yn mesur cynnydd disgyblion a'r hyn a ddysgodd ysgolion o ddysgu cyfunol.<br><br>Yng nghyswllt elfen recriwtio ac adferiad cyllid gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod trefniadau monitro llym ar waith sy'n mesur yr effaith yn gysylltiedig gyda'r gwariant hwnnw. Mae'n awr yn cymryd rhan yn y Grŵp Adferiad a arweinir gan Lywodraeth Cymru a theimlai y gallai'r sefyllfa hon helpu Blaenau Gwent i lunio adferiad ar lefel strategol. Wrth symud ymlaen, teimlai y byddai adferiad yn nhermau ymateb Covid yn fwy o drefniant tymor canol i hirdymor a dyna pam mai rheoli cynnydd disgyblion oedd y flaenoriaeth allweddol a gyflwynir i gynllun |

| | |
|---|---|
| | busnes EAS.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at hyrwyddo dysgu a dyfynnodd o'r ddogfen 'Roedd Swyddogion yn ystyried bod EAS yn rhoi cefnogaeth dda i ysgolion a dulliau dysgu cyfunol' a theimlai y byddai Estyn angen tystiolaeth yng nghyswllt hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y caiff gwaith ei wneud gyda EAS am ddathlu, rhannu, cefnogi a mireinio a bod cynllun peilot yn mynd rhagddo. Teimlai fod Blaenau Gwent ar flaen y gad y gwaith hwnnw ac y byddai cyfle i rannu ymarfer ar draws y stad ysgolion. Roedd cyflwyniadau yn cael eu cynnal yn 13 allan o'r 25 ysgol sydd yn rhan o'r cynllun peilot, maent hefyd yn ymroddedig i'r 12 ysgol arall i gymryd rhan yng nghylch nesaf cynlluniau CSSR a fyddai'n dod ag elfennau arfer da ymlaen a theimlent eu bod mewn lle rhesymol i ymestyn y dysgu hwnnw ar draws yr holl Fwrdeistref Sirol.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol EAS y cynhaliwyd sesiwn dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer Aelodau yn ddiweddar, y diweddaraf mewn cyfres lle mae'r ysgolion hynny ym Mlaenau Gwent yn cyflwyno pa waith maent yn ei wneud i Aelodau. Bu nifer dda yn bresennol a byddai'r EAS yn parhau drwy'r Awdurdod Lleol i gynnig sesiynau tebyg yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 4519 |
|---|---|
| Item Title | Cynllun Busnes EAS 2021-2022 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i aelodau ystyried choll gynnwys drafft Gynllun Busnes EAS 2021-2022, fel rhan o'r broses ymgynghori ranbarthol. Drwy'r gweithgaredd hwn, bydd aelodau yn sicrhau fod y cynllun yn galluogi cymorth addas i ysgolion a safleoedd ym Mlaenau Gwent.<br><br>Cyflwynodd Prif Gynghorydd Her newydd EAS ef ei hun yn gryno i Aelodau. Bu newid yn nhrefniadau EAS. Hayley Davies-Edwards bellach yw'r Prif Gynghorydd Her newydd ar gyfer Blaenau Gwent o fis Ionawr 2021.<br><br>Siaradodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd yr Aelod Cyfetholedig fod EAS wedi addasu eu ffordd o weithio ac wedi mabwysiadu rôl fwy cefnogol dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi gostwng y galw ychwanegol ar sut mae athrawon yn darparu cymorth ychwanegol wrth gyflwyno gwell dysgu cyfunol. Roedd ganddo un consyrn gyda'r cynllun busnes sy'n ymwneud â'r nod uchelgeisiol yng nghyswllt y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru a theimlai y byddai'n drueni i ruthro ei weithredu nawr ar draul sicrhau fod pob disgybl wedi dal lan a gofynnodd am sicrwydd na fyddai symud ymlaen ar draul dal lan. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am sut y byddai EAS yn asesu lle mae addysg plant arni ar hyn o bryd a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cael gwerth am arian gan EAS, dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS yng nghyswllt y data ar gyfer atebolrwydd, yn yr haf 2020 nad oedd unrhyw asesiadau ar Gyfnod Sylfaen na Chyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, mae data Cyfnod Allweddol 4 yn seiliedig ar asesiadau ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn 2021 ar adrodd data, daw'r ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Mawrth ac felly mae'n annhebyg y byddai ystod llawn o ddata diwedd cyfnod allweddol. Yn hanfodol, roedd ysgolion yn adnabod eu dysgwyr a'r cynnydd roedd angen iddynt ei wneud i ddychwelyd i ddysgu. Byddai'r EAS yn gweithio gydag ysgolion i gefnogi eu dealltwriaeth o ble mae eu dysgwyr arni. Esboniodd fod profion cenedlaethol yn dal i fod, er enghraifft, ond cafodd y gofyniad i wneud y profion cenedlaethol hynny yn flynyddol ei addasu, roedd ar sail ymdrechion gorau yn ystod y flwyddyn oherwydd nad oedd dysgwyr wedi bod yn yr ysgol am lawer o'r flwyddyn i gymryd y profion cenedlaethol addasol hynny. Yr hyn oedd yn hollbwysig oedd pan oedd ysgolion yn defnyddio offer fel hynny eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd i asesu lle mae dysgwyr ac i asesu eu hanghenion yn hytrach nag ar gyfer atebolrwydd.<br><br>Yng nghyswllt gwerth am arian, cyflwynwyd adroddiad gwerth am arian blynyddol i bob awdurdod lleol a'r casgliad a roddwyd ar y pryd gan yr ymgynghorwyr allanol oedd bod EAS yn rhoi gwerth da am arian.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am yr hyn y mae EAS yn ei wneud i annog ysgolion nad ydynt yn ymgysylltu, dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS fod lefelau uchel o ysgolion wedi cymryd rhan yn y broses CSSR a drwy'r broses Prif Gynghorydd Her, cysylltir ag ysgolion lle mae pryderon am ymgysylltu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.<br><br>Yng nghyswllt blaenoriaeth J yng Nghynllun Busnes EAS, teimlai Aelod y dylid ychwanegu'r geiriau 'dathlu llwyddiant' at yr ymadrodd 'Datblygu diwylliant ymhellach o amgylch atebolrwydd sy'n dynodi ac yn gwerthfawrogi sbectrwm eang o nodweddion ar ysgolion a safleoedd effeithlon'. Gobeithiai Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS fod 'dathlu llwyddiant' yn ymdreiddio drwy'r ddogfen. Mae Blaenoriaeth J yn bwrw golwg ar rai o'r cyfrifoldebau statudol sydd gan yr awdurdod lleol, y mae EAS yn cyflawni arno fel eu partneriaid yng nghyswllt yr elfennau atebolrwydd.<br><br>Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS y caiff yr argymhellion gan Estyn i Lywodraeth Cymru eu hintegreiddio'n llawn i argymhellion yn mynd i awdurdodau lleol ac ysgolion.<br><br>Yng nghyswllt gwerth am arian, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod dau amrywyn; un oedd asesiad o p'un yw perfformiad yn gwella ai peidio a'r ail oedd p'un ai a ellid cynnal asesiad yn fwy effeithiol gyda llai o adnoddau. Roedd y dyraniad presennol o adnoddau a gomisiynwyd gan y Cyngor gyda EAS ychydig dros £350,000 a chadarnhaodd ostyngiad o 2% yn y gyllideb honno ar gyfer 2021/22. Temlai fod hyn yn rhoi gwerth da am arian. |

| | |
|---|---|
| | Cododd Aelod bryderon am ddysgu cyfunol a sut y caiff cynnydd disgyblion ei fesur yng nghyswllt llythrennedd a rhifedd a sut y caiff y data hwnnw ei ddadansoddi gan mai dyma'r ail flwyddyn ar gyfer asesiadau disgyblion. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS nad oedd glasbrint ar gyfer sut y gellid cyflwyno dysgu o gartref, byddai dysgwyr yn gorfod treulio gwahanol gyfnodau adref, oherwydd ynysu ac yn y blaen roedd ysgolion wedi dysgu o'r dechrau cyntaf a dyna oedd un o'r elfennau allweddol a gaiff ei gynnwys yn y seminarau dysgu o bell a dysgu cyfunol. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd, byddai ysgolion mewn sefyllfa i asesu galluoedd disgyblion a byddid yn nodi anghenion y dyfodol. Teimlai fod ysgolion yn datblygu eu dulliau gweithredu nawr a byddai EAS yn cefnogi ysgolion ac yn rhannu arfer gorau ar sut i drin anghenion dysgwyr unigol. Esboniodd nad oedd unrhyw gonsortia yn ymwneud gyda chanlyniadau TGAU neu Lefel O, nid oedd yr EAS erioed wedi ymwneud gyda'r asesiad gan fod yn rhaid iddo gael ei gynnal gan sefydliadau annibynnol tebyg i CBAC. Dim ond fel cyswllt rhwng Cymwysterau Cymru, CBAC a'r ysgolion uwchradd y mae EAS yn gweithredu. Yng nghyswllt y cynllun busnes byddai'r EAS yn parhau i weithio gyda sefydliadau cenedlaethol a chydweithwyr mewn ysgolion i gyfathrebu'n glir y negeseuon sy'n dod ar lefel genedlaethol ar asesiadau cenedlaethol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y Cynllun Busnes fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 4520 |
|---|---|
| Item Title | Adroddiad Ysbrydoli i Gyflawni a Pherfformiad Gwaith Ionawr – Rhagfyr 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar brosiectau lleol Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio a gyllidir gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF). Mae'r prosiectau hyn yn rhan o ddull y tîm Gwasanaeth Ieuenctid i ostwng nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant).<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 6.1.11 a gostwng staff o 6.5 i 4.5 eleni gan fod dau aelod o'r staff wedi bod dros dro yn cefnogi'r tîm digartrefedd ieuenctid a holodd am gyllid y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid iddynt fod yn llwyddiannus yn sicrhau blwyddyn arall o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith cysylltiedig â digartrefedd, y bwriad oedd fod y ddau aelod o'r staff sydd wedi mynegi diddordeb yn parhau o fewn y tîm digartrefedd ieuenctid a recriwtio ar wahân i ddwy swydd wag. Yng nghyswllt yr ESF, mae'r adroddiad yn sôn fod hyn yn risg ac mae'r tîm mewn trafodaethau gyda phartneriaid rhanbarthol i edrych ar cyllid sy'n dod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o'r |

| | |
|---|---|
| | Gronfa Rhannu Ffyniant. Roedd llwybrau eraill o gyllid yn cael eu hystyried yn y tymor byr ond mae ansicrwydd am amseriad, fodd bynnag mae Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid yn weddol hyderus y daw cyllid ar gael.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed darparwyr hyfforddiant, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid eu bod yn gweithio'n agos gyda nifer o ddarparwyr hyfforddiant o fewn yr ardal, fel rhan o bartneriaeth grŵp codi uchelgais. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall anghenion pobl ifanc a sicrhau fod yr hyfforddiant angenrheidiol ar gael iddynt. Roedd hefyd safleoedd cwricwlwm amgen ar gael lle mae'r tîm yn gweithio gyda'r pobl ifanc yn y safleoedd hynny.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Aelodau yn craffu ar yr wybodaeth a fanylir yn yr adroddiad ac yn argymell 'r Pwyllgor Gweithredol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn. |

| Item ID | 4521 |
|---|---|
| Item Title | Ffurflen Flynyddol 2019/20 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid a gyflwynwyd i Aelodau ystyried yr adroddiad a atodir (atodiad 1) a dderbyniwyd gan Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yng nghyswllt trydedd flwyddyn y Chweched Fframwaith Asesu ar gyfer ffurflen Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2019/20.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 91, dangosydd ansawdd 9 a dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth Hamdden wedi methu cyflawni ei mesur am ddeunydd darllen a theimlai, wrth ddod allan o'r pandemig, ei bod yn bwysig fod amrywiaeth ac ansawdd o ddysgu ar gael i bob oed, a hefyd ar gyfer darllen er pleser ac astudiaeth. Gobeithiai y byddai'r buddsoddiad a ddangosir yn yr adroddiad yn dod yn ei flaen ac na fyddai diffyg darpariaeth ar gyfer deunydd darllen a ffyrdd cyfryngau eraill o ddysgu.<br><br>Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y byddent yn adrodd yn ôl ar gynnydd ar elfen gwariant y gronfa llyfrau a hefyd yn cydnabod y mynediad gwahanol i ddarllen a deunyddiau tebyg i fersiynau electronig. Cyflwynir yr adroddiad hwn ar siâl flynyddol i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am lyfrgelloedd symudol, dywedodd y Rheolwr Partneriaethau, Cyllid a Chontractau fod dau wasanaeth llyfrgell symudol yn weithredol ar hyn o bryd ond mai dim ond am 3 allan o 5 diwrnod yr wythnos yr oeddent yn gweithredu yn ystod y pandemig. Byddai'r gwasanaeth llyfrgell symudol yn gweithredu'n llawn am 5 allan o 5 diwrnod yr wythnos ar ôl y Pasg. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu adroddiad arall blwyddyn ar flwyddyn i sicrhau fod y gronfa llyfrau yn cael ei defnyddio yn y ffordd gywir.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn, 1, sef bod Aelodau yn craffu ar yr wybodaeth a fanylir o fewn yr adroddiad ac yn argymell i'r Pwyllgor Gweithredol y dylid derbyn yr adroddiad. |

| Item ID | 4522 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Derbyn Addysg ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol 2022/23 Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Addysg a gyflwynwyd i amlinellu canlyniad yr adolygiad blynyddol a'r broses ymgynghori yn gysylltiedig gyda Pholisi Derbyn Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu roi eu barn a'u sylwadau ar y ddogfen er mwyn paratoi ar gyfer cylch derbyn 2022-23, cyn ei phenderfyniad a'i chyhoeddi ar 15 Ebrill 2021.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y ddogfen polisi. |

| Item ID | 4523 |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith: 20 Ebrill 2021 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Oherwydd y pandemig, gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am symud yr adroddiad ar Strategaeth Hygyrchedd Addysg i gyfarfod yn y dyfodol i roi mwy o amser i'r Tîm Trawsnewid i baratoi'r ddogfen ac awgrymodd y gellid rhoi adroddiad diweddaru COVID-19 ar y rhaglen yn lle hyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef symud yr adroddiad ar y Strategaeth Hygyrchedd Addysg i gyfarfod yn y dyfodol a rhoi adroddiad diweddariad COVID-19 ar yr agenda yn lle hynny. |